



Cymdeithas Ddinesig Caerfyrddin Carmarthen Civic Society

Cadeirydd/Chairman: Mrs Linda Jones
Is Gadeirydd/Vice Chairman: Mrs Mary Thorley
Trysorydd/Treasurer: Mrs Wendy Evans
Swyddog Hysbysrwydd/Publicity Officer: Mrs Julie Rees
Ysgrifenydd/Secretary: Mr Huw Iorwerth

Adroddiad Blynyddol Cymdeithas Ddinesig Caerfyrddin 2017 – 2018

Llythyr y Cadeirydd.

Annwyl Aelod,

Mae'n bleser gen i gyflwyno adroddiad arall ar weithgareddau'r Gymdeithas. Bu'r flwyddyn 2017/18 yn un brysur iawn a gallwn ymfalchio fod llawer wedi'i gyflawni wrth inni hybu ein nod o annog balchder yn ein tref. Fel y gwelwch o'r Cylchlythyr amgaeedig bu'r Pwyllgor Gwaith yn weithgar iawn mewn nifer o feysydd, llythyru a lobiö'r awdurdodau, yn ogystal ag ymgymryd â gwaith ymarferol i wella amgylchedd y dre, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus ac anerchiadau.

Diau mai uchafbwynt y flwyddyn oedd cael ein henwebu yng nghategori Rhagoriaeth mewn Treftadaeth yng Ngwobrau Dathliad Diwylliant y Cyngor Sir a gynhaliwyd am y tro cyntaf eleni. Roedd yn brofiad plerusrus i dderbyn y wobwr ar ran y Gymdeithas mewn Seremoni Wobrwyo ddisglair a gynhaliwyd yn Y Ffwrnnes, Llanelli ym mis Ebrill; arwydd yn wir fod y Gymdeithas yn cael ei chydnabod am y gwaith da a wna.

Serch hynny profwyd tristwch hefyd yn ystod y flwyddyn oherwydd i ni gollu dau aelod selog a gweithgar sef Margaret Evans a John Reynolds. Rwyf yn ddiolchgar iawn i Mary Thorley am ei theyrnedau i'r dau ffrind yma a oedd mor driw i Gaerfyrddin. Fe'u cyhoeddir gyda'r Cylchlythyr. Mae cymaint o'r hyn a gyflawnir gennym yn deillio'n uniongyrchol o wybodaeth, sgiliau a synnwyr cyffredin Margaret a John.

Wrth gloi apelïaf arnoch, fel aelodau, i barhau i gefnogi'r Gymdeithas yn ei hymdrechion. Cadwch lygad, os gwelwch yn dda, am ddigwyddiadau a drefnir gennym a dewch i gefnogi'n cyfranwyr. Byddai o gymorth mawr petai ein hysgrifennydd yn derbyn cyfeiriadau e-bost fel y gall gysylltu a'n haelodau'n uniongyrchol heb gost postio. I'r diben hwn amgaewn ffurflen i esbonio y sefyllfa. Mae hyn yn ofynnol o dan y ddeddfwriaeth newydd ar Reoliadau Diogelu Data. Gan eich bod wedi dewis bod yn aelod, deallwn nad oes angen arnoch i ddarparu caniatad ysgrifenedig pellach i dderbyn gwybodaeth oddi wrthym am waith y gymdeithas. Fodd bynnag, os na ddymunwch i ni ddal i gadw eich manylion, danfonwch y ffurflen yn ôl. Hefyd amgaewn ffurflen gais am aelodaeth os ydych yn talu yn flynyddol neu'n dymuno sefydlu archeb sefydlog.

Yr eiddoch yn gywir,

Linda Jones

Cadeirydd

Cylchlythyr Pwyllogor Gwaith Cymdeithas Ddinesig Caerfyrddin 2018 **Cyfarfodydd Agored**

Ar noson heulog o Orffennaf arweiniodd Jeremy John yr aelodau ar daith ddifyr heibio Capel y Priordy, trwy borthdy canoloesol y Priordy, ar draws Parc Hinds, heibio'r hen Ysgol Ramadeg ac ar hyd Y Llannerch a'r Rhodfa. Wrth gyrraedd cyn swyddfeydd yr hen Gyngor Dosbarth sylwyd ar gyflwr aflêr y tir o gwmpas y fynedfa. Anfonwyd llythyr at y Prif Weithredwr yn dweud y byddem yn anfon gweithgor i dacluso'r fangre ymhen rhai dyddiau. Er mawr foddhâd i ni, yn dilyn ein bygythiad i weithredu'n uniongyrchol, ymatebodd Mr James na fyddai angen i ni wneud hynny ac fe dacluswyd y fynedfa ar unwaith gan staff y cyngor.

Ym mis Medi cyflwynwyd darlith ddarluniadol ardderchog gan Peter Rowland ar blaciau glas a ddadorchuddiwyd gan y gymdeithas dros y blynyddoedd. Hyderwn y byddwn yn medru arddangos y lluniau yma, ynghyd â'u cefndir hanesyddol, trwy eu cyhoeddi ar ein gwefan maes o law er mwyn eu rhannu gyda chynulleidfa ehangach.

Anerchiad o dan y teitl "Ancient and Modern: can the twain be reconciled?" a gafwyd gan Trefor Thorpe ym mis Chwefror. Trafododd y cwestiwn anodd a yw cynlluniau cyfoes yn cyd-weddu ag ardaloedd cadwraeth.

Tro'r Gymdeithas Ddinesig oedd i eleni i drefnu'r ddarlith at y cyd â Chyfeillion Amgueddfa Sir Gaerfyrddin. Y siaradwr gwâdd oedd Mr James Pierce a wfreiddiodd ei gynulleidfa gyda'i ddisgrifiadau byw o orchest William Salesbury yn cyfieithu'r Testament Newydd i'r Gymraeg 450 o flynyddoedd yn ôl.

Pan gyhoeddir rhaglen y flwyddyn nesaf, gobeithir y bydd rhagor o aelodau'n mynychu'r cyfarfodydd a drefnir mor raenus bob tro, am eu bod yn effeithio'n uniongyrchol ar faterion sy'n berthnasol i'r dre.

Sgwâr Nott.

Cynhaliwyd deialogau mynych â'r awdurdodau ynglŷn â rheolaeth ar barcio anghyfreithlon yn Sgwâr Nott. Rydym yn falch o ddweud o ganlyniad i'r trafodaethau hyn fod y Cyngor Sir yn awr yn manteisio ar y ddeddfwriaeth ddiweddaraf i gyflwyno gorchmynion traffig newydd a fydd yn cyfyngu ar

fynediad trafndiaeth. Bydd effaith y cynllun yma a llwyddiant y dechnoleg newydd i'w reoli yn cael eu harolygu'n fanwl.

Cinio Nadolig

Roedd cinio Nadolig eleni'n un arbennig iawn. Ein gwahoddedigion oedd Dr Tori Herridge a Mrs Karolyn Shindler a oedd yn gynharach y noson honno wedi dadorchuddio plac glas ar Dŷ Napier i goffâu y palaeontolegydd, Dorothea Bate. Roedd yn gyfle hefyd i gyflwyno Aelodaeth Oes Anrhydeddus y Gymdeithas i Mr Byron Rogers ar sail ei newyddiaduraeth sydd yn aml iawn yn dangos ei gariad dwfn at ei dref enedigol a'i anobaith oherwydd rhai o'r newidiadau sy'n cael eu gorfodi arni.

Placiau Glas

Mae rhaglen y Gymdeithas o osod placiau glas i goffáu dinasyddion nodedig yn mynd yn ei flaen. Ym mis Rhagfyr dadorchuddiwyd plac ar Dŷ Napier yn Heol Spilman i goffáu man geni Dorothea Bates, y wraig gyntaf i gael ei chyflogi fel gwyddonydd yn Amgueddfa Hanes Astudiaethau Natur yn Llundain. Cytunodd dwy wraig, a ysbrydolwyd gan orchestion Dorothea, i ymuno â ni i ddadorchuddio'r plac. Mae Dr. Tori Herridge yn baleontolegydd a sefydlodd 'Trowelblazers', sef mudiad sy'n dathlu gwagedd sy'n archeolegwyr, paleontolegwyr a daearegwyr. Cofiannydd Dorothea yw Karolyn Shindler. Roeddem wrth ein bodd, yn ein cinio Nadolig, ein bod wedi gwerthu nifer o gopiau o'r bwygraffiad a mygiau a wnaed yn arbennig i gofio'r achlysur. Denodd y digwyddiad ddiddordeb y BBC a darlledwyd cyfweiliadau byw o'r gwesty.

Ym mis Mai dadorchuddiwyd plac ar fur Gwesty'r Spilman i goffáu Elizabeth Phillips Hughes, sylfaenydd Hughes Hall, sy'n goleg cyfansoddol o Brifysgol Caergrawnt. Dr Anthony Freeling, Llywydd Hughes Hall, a Delyth Williams, Cadeirydd Clwb Cinio Merched Caerfyrddin (a fu ddigon caredig i dalu am y plac) a'i ddadorchuddiodd ar y cyd. Yna'n hwyrach fe ymunon nhw â ni mewn cinio yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg.

Yn hwyrach eleni trefnir i ddadorchuddio placiau i nodi'r rhan a chwaraewyd gan ddwy wraig wahanol iawn yn eu hymgais i ryddfrenio gwagedd ganrif yn ôl. Cadwch lygaid am fwy o fanylion yn y papurau lleol.



Dr Anthony Freeling, Llywydd Hughes Hall, a Delyth Williams, Cadeirydd Clwb Cinio Merched Caerfyrddin yn dadorchuddio y plac i Elizabeth Phillips Hughes



Ceisiadau Cynllunio

Mynegwyd barn ar nifer o geisiadau cynllunio dadleugar yn ystod y flwyddyn. Un siom oedd y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio i ardal Sgwâr Jackson. Teimla'r Gymdeithas fod cyfle wedi'i gollu i osod cynllun creadigol o'r radd flaenaf yn yr ardal yma. Y gofid pennaf oedd y penderfyniad i greu llwyfan gwastad gyda grisiau bob ochr. Ar yr ochr gadarnhaol llwyddodd cyflwyniadau'r Gymdeithas i sicrhau ganiatâd i plannu planhigion yn yr ardal i feddalu'r effaith a chadw'r syniad o ardd tawel. Byddwn yn cadw llygad barcud ar y datblygiad.

Cynllun arall a gafodd gryn sylw oedd y bwriad i droi rhannau o du mewn y 'Guildhall' yn dŷ bwyta. Er nad yw'r Gymdeithas Ddinesig yn gwrthwynebu'r newid defnydd o'r adeilad, cyflwynwyd gwrthwynebiad cryf ynghylch manylion llawer o'r newidiadau i'r adeiladwaith yn y cyllun arfaethedig. Mae prinder y manylion yn y cynlluniau a gyflwynwyd gyda'r cais yn dangos diffyg sensitifrwydd o hanes yr adeilad rhestredig Gradd 1 hwn. Trefnwyd cyfarfod gyda Phennaeth yr Adran Gynllunio i drafod yr oblygiadau.

Grŵp Garddio

Mae Molly a'i grŵp o wirfoddolwyr yn parhau i gynnal a chadw tri llain o dir a esgeuluswyd yng nghanol y dref. Yn ychwanegol at hynny, plannwyd miloedd o Gennin Pedr a llwyni yn Lôn Morfa gerllaw garej Toyota. Rydym yn ddiolchgar i Toyota am gymorth ariannol ac i Farmyard Nurseries am gyngor a chymorth gyda'r plannu.



Wyrcws Caerfyrddin

Siomwyd y Gymdeithas, er nad oedd hynny'n syndod, o glywed fod y Wyrcws wedi'i niweidio gan dân. Trwy gydol y flwyddyn cyflwynwyd cwynion ynglŷn â chyflwr y safle a esgeuluswyd ers tro. Ymhen hir a hwyr, cyhoeddodd y Cyngor Orchymyn Gorfodaeth ar y perchennog o dan dermau Deddf Cynllunio Tref a Gwlad (1990). Digwyddodd y tân cyn y gwrandawriad apêl a geisiwyd gan y perchnogion. Yn y cyfamser gwnaed cais i Cadw i restru'r prif foc, y tybir iddo gael ei gynllunio gan George Morgan. Gofynnwyd i'r Cyngor i beidio gweithredu ar frys i glirio'r safle cyn i beiriannydd adeiladu wneud asesiad arbenigol.

Gwobrau'r Gymdeithas Ddinesig.

Adolygwyd categorïau'r Gwobrau a phenderfynwyd ar y canlynol:

Prosiect Adeilad Cadwriaethol Gorau: Y Warren, Heol Mansel

Prosiect Hanesyddol Amgylcheddol Gorau: Murlun yn Lôn Shaw

Prosiect Gorau Ailwampio Sensitif o Adeilad Gwag: Plas Ystrad, Tre Ioan

Prosiect Ail-ddatblygu Masnachol Gorau: Yr Atom, Heol Y Brenin

Hyrwyddo Etifeddiaeth Leol: Dim Gwobr

Gwobr David White am Gynllun Pensaernïol Arwyddocaol Trawiadol: Maes Y Ffair, Heol Pentrefelin.

Gan dorri ar draddodiad, yn hytrach na chynnal un seremoni wobrwyo, cyhoeddir gwobrau unigol ar draws y flwyddyn er mwyn sicrhau cyhoeddusrwydd teg i bawb. Hyderwn y byddwn, yn y ffordd yma, yn annog safonau uchel o gynllunio ac adeiladwaith.



Maes Y Ffair, Heol Pentrefelin

Parc Dewi Sant

Rydym wedi cael sicrwydd fod pileri'r hen farchnad anifeiliaid wedi cael eu storio'n ddiogel ym Marc Dewi Sant. Awgrymodd y Gymdeithas y gellid gwneud ail-ddefnydd creadigol o'r gathiau trwy eu hymgorffori yng nghan nesaf datblygiad Sgwâr Jackson.

Mewn ateb i'n cwestiynau am ddyfodol adeiladau gwag ar safle'r cyn ysbyty, cawsom wybod nad oedd gan y Cyngor Sir unrhyw ddefnydd i Gartref y Nyrsus na Thŷ Ffynnon Job ac y byddant yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored. Bydd yr adeiladau eraill ar y safle'n cael eu cadw ac mae rhaglen waith ar gael i'w gwella a throi rhagor ohonynt yn swyddfeydd. Mae'r capel rhestredig wedi'i glustnodi ar gyfer Gwasanaeth Cerdd Ysgolion.

Gwobr Norah Isaac

Yn 2017 enillydd y wobr a noddir gan y Gymdeithas i fyfyrwr sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf yn yr iaith Gymraeg i fywyd Prifysgol y Drindod Dewi Sant oedd Caryl Jones.

Gwefan

Mae'n ofid i'r Gymdeithas nad oes ganddi wefan gyfredol weithredol sy'n hyrwyddo'n gwaith. Yn dilyn trafodaethau gydag awdurdodau'r Brifysgol trefnwyd y byddai cyn fyfyrwr yn cynllunio safle addas yn seiliedig ar wybodaeth oddi wrth y Gymdeithas. Araf iawn fu'r datblygiad hyd yn hyn ond rydym yn obeithiol y caiff ei chwblhau'n fuan ac ar lein cyn diwedd y flwyddyn. Yn y cyfamser, mae gennym dudalen 'Facebook' bywiog iawn sy'n hysbysebu ein gweithgareddau ac yn annog deialog.

Marwolaethau

Collodd y Gymdeithas Ddinesig ddau o'i haelodau mwyaf ffyddlon a blaenllaw yn ystod y flwyddyn.

Bu **John Reynolds** yn aelod o ddechreuad y Gymdeithas a bu am flynyddoedd maith yn aelod pwysig o'r pwyllgor gwaith. Roedd gan John gariad dwfn tuag at y dref ac roedd wedi ymrwymo i ddiogelu'r gorau o'i gorffennol gan edrych hefyd i'r dyfodol gydag optimistiaeth a didwylledd. Byddwn yn gweld eisiau cyngor John ar faterion cyfreithiol a chynllunio ond yn fwy na dim byddwn yn gweld eisiau ei gwmniaeth ddifyr a'i hiwmor iach yn ein cyfarfodydd. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â theulu John yn eu colled.

Bu **Margaret Evans** yn asgwrn cefn y Gymdeithas Ddinesig am ymhell dros ddeng mlynedd ar hugain. Am y rhan fwyaf o'r blynyddoedd hynny hi oedd ysgrifennydd y Gymdeithas ac roedd yn gyd-ysgrifennydd hyd at ei marwolaeth. I Margaret roedd bod yn aelod yn golygu mwy na mynychu ychydig o gyfarfodydd. Iddi hi roedd yn golygu ymrwymiad brwdfrydig a llwyr. Ni fyddai penwythnos yn mynd heibio heb i Margaret weithio ar wely blodau yng nghanol y dre, plannu bylbiau neu flodau neu chwilio am noddwyr i wahanol brosiectau. Byddai Margaret bob amser yng nghanol y gweithgareddau tacluso ... menig garddio am ei dwylo, sach sbwriel mewn un llaw a siswrn yn y llall. Nid cwyno am yr hyn nad oedd yn iawn neu heb eu gwneud yn gywir a wnâi Margaret ond yn hytrach roedd ei gofal am y dre yn peri iddi dorchi llewys a thaclo problemau gan roi iddi'r bodlonrwydd o weld yr hen le'n gwella.

Un o'i phrif gyfraniadau i'r Gymdeithas ac i'r dref oedd ei chasgliad helaeth o luniau'n cofnodi hanes y dre wrthi iddi ddatblygu yn ystod yr ugeinfed ganrif. Cofnododd hefyd nodweddion pwysig Sioraidd a Fictoriaidd ar adeiladau'r dref gan fynd ati hefyd i wneud arolwg o waith haearn yn y dref.

Os oedd unrhyw un yn dweud wrthi ei fod am dynnu llun o'r dref dywedai wrthyt am wneud hynny pan fyddai'r awyr yn las, ond i Margaret roedd awyr dros Gaerfyrddin yn las bob dydd. Roedd ganddi optimistiaeth dragwyddol am Gaerfyrddin a'i phobl.

Gwelai botensial y dre, fe'i carai am yr hyn a fu, yr hyn ydyw a'r cyfan a all fod. Does yna ddim llawer o bobl sy'n gwasanaethu eu cenedlaeth eu hunain, cenedlaethau a fu a chenedlaethau eto i ddod ond dyna'n union a wnaeth ein Margaret ni.

Estynnwn ei cydymdeimlad mwyaf diffuant a'i theulu. Ni fydd y Gymdeithas ddinesig fyth yr un peth eto.